

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth

## Cofnodion y Cyfarfod

Dyddiad: 15/01/19

Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ystafell Gynadledda B.

Enw	Sefydliad	Manylion cyswllt
Suzy Davies AC		Suzy.davies@cynulliad.cymru
Craig Lawton (Ysgrifennydd)	Suzy Davies AC	Craig.lawton@cynulliad.cymru
Adrian Greason-Walker	Cynghrair Twristiaeth Cymru	adriangwalker@gmail.com
Andrew Campbell	Cynghrair Twristiaeth Cymru	campbellandrewalex@gmail.com
James Parkin	Cyfarwyddwr Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro	
Dennis O'Conner	Twristiaeth Sir Benfro	
Lyndon Belt	Templeton Food & Drink Ltd.	
Gina Gavigan	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru	
Gerwyn Evans	Croeso Cymru	
Danielle May	Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain	
Paula Ellis	Retreats Group - Gwestai	
Mari Stephens neu unigolyn arall	Croeso Cymru	
Anthony Pickles	Visit Britain	
Huw Francis	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	

## Ymddiheuriadau

Enw	Sefydliad	Manylion cyswllt
Amherthnasol		

1. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawodd SD yr aelodau

2. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir

3. Diweddariad gan Anthony Pickles o Visit Britain

Cyflwynodd AP gefndir VB a sut mae'n cael ei ariannu, trwy'r ymgyrch 'Great' a grant gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Cadarnhaodd fod gan y bwrdd aelod o Gymru, sef Ian Edwards o Celtic Manor, sydd newydd gael ei benodi.

Cadarnhaodd bod swyddfeydd ledled y byd sy'n gweithio yn UDA, Brasil, Tsieina, y Dwyrain Canol ac Ewrop yn cael eu rhedeg o swyddfa Llundain.

Mae VB yn trosoli tua £13 miliwn y flwyddyn gan fusnesau preifat.

Mae hefyd yn cynghori Llywodraeth y DU.

Cadarnhaodd AP y sefyllfa bresennol o ran twristiaeth yn y DU.

Tyfodd twristiaeth ryngwladol 7 y cant ledled y byd y llynedd ac roedd hyn yn golygu 32.9 miliwn o ymwelwyr i'r DU y llynedd.

Twristiaeth yw'r trydydd sector fwyaf yn y DU.

Gwariwyd £39 miliwn yng Nghymru gan dwristiaid y llynedd.

Nododd AP rai o'r heriau i dwristiaeth yn y DU:

- Nid yw dros hanner yr ymwelwyr yn gadael Llundain
- Mae dros 66 y cant o ymwelwyr â'r DU yn dod yn yr haf
- Angen cynyddu ymwybyddiaeth o gynhyrchion a'r hyd sydd i'w gynnig
- Mae Tsieina yn gwario 35 gwaith yn fwy na'r DU o ran marchnata twristiaeth
- Angen dod o hyd i droedle mewn marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg fel Corea a Maleisia
- Angen marchnata mwy o gynhyrchion o Gymru

Mae VB wedi cael Llywodraeth y DU i gydnabod pwysigrwydd twristiaeth i economi'r DU. Mae bargaen sector bellach yn cael ei hystyried. Bydd hyn yn dyrchafu presenoldeb twristiaeth o fewn llywodraethau.

Cymerodd AP gwestiynau gan y Grŵp am y pynciau canlynol:

- Nifer ymwelwyr â'r DU a Chymru
- Gwariant ymwelwyr
- Cynnig twristiaeth yr Alban
- Cysylltiadau rhwng Cymru a gwledydd eraill fel Qatar
- Trafnidiaeth i Gymru o Lundain ac yna o amgylch Cymru
- Ymweliadau â gogledd Cymru a chysylltu â strategaethau Manceinion
- Cysylltiad Great Western Mainline gyda de Cymru o Lundain
- Targedau VB ar gyfer yr Alban o'u cymharu â Chymru

- Nid yw Cymru yn ymddangos yn ddigonol mewn rhestrau o'r hyn y gellir ei wneud yn y DU gan VB
- Tocynnau y gall ymwelwyr â'r DU wneud cais amdanynt cyn cyrraedd er mwyn caniatáu iddynt deithio o amgylch y DU ar y trên a faint mae Cymru'n elwa o'r rhain
- P'un a yw Cymru'n cael ei hystyried yn ddigon ar wahân i Loegr gan VB a Llywodraethau Marchnata Cymru i dde-orllewin Lloegr
- Annog ymwelwyr sy'n dychwelyd i'r DU i ddod i Gymru
- Cyfle i annog twristiaid Tsieineaidd i ddod i Gymru drwy dwristiaeth antur
- Lefelau gwariant uchel ymwelwyr o UDA a sut y gall Cymru elwa o'r rhain
- Gall mwy o fusnesau Cymru fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau VB
- Cronfa bontio Llywodraeth Cymru ac a ellir defnyddio hyn yn rhannol i ariannu teithiau dramor i farchnata Cymru
- Croeso Cymru i ymweld â Llundain yn amlach i gwrdd â VB
- Cyfleoedd VB i ymweld â Chaerdydd yn amlach i gwrdd â Croeso Cymru
- Effaith Brexit ar farn gweddill y byd ar y DU o ran twristiaeth a'r ffaith nad yw archebion twristiaeth wedi gweld cwmp
- Pa mor gyflym y gellir nodi gostyngiad mewn ymwelwyr â'r DU a Chymru a gweithredu ar hynny
- Rôl parciau cenedlaethol Cymru, sut y gellir manteisio arnynt, a yw eu rôl a'u cynlluniau'n wahanol yn Lloegr
- Gwyliau gartref yn y DU a sut y gall Cymru elwa o'r rhain
- Hedfan i'r DU, rolau meysydd awyr Caerdydd a Bryste yn ogystal â rolau Heathrow a Gatwick
- Treth twristiaeth a barn arni mewn gwledydd a rhannau eraill y DU
- Sut y gellir annog twristiaid i adael Llundain, yn enwedig gan fod y Alban yn cyflawni hyn
- Gellir defnyddio cysylltiadau rheilffordd Cymru fel profiad yn hytrach na chyfle teithio yn unig
- Cysylltiadau Cadw gyda busnesau twristiaeth a sut y gellir gwella hyn fel y gall busnesau archebu ar ran gwesteion yn hawdd

#### 4. Unrhyw fater arall

Gofynnwyd a all cyfarfod nesaf bwrdd VB fod yng Nghymru gan fod un wedi'i drefnu yn yr Alban yn fuan.

Daeth y cyfarfod i ben.